# Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion
# Ebrill 2024 – Mawrth 2025



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur: Partneriaeth a Pherfformiad, CM
Cymeradwywyd gan y Cabinet: 02/09/2025

# Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ebrill 2024 – Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein pum amcan cydraddoldeb allweddol ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024 i Fawrth 2025. Mae ein hamcanion Cydraddoldeb wedi'u nodi yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28. Maent yn canolbwyntio ar hyrwyddo cydraddoldeb, meithrin cysylltiadau da, sicrhau ymgysylltu a chyfranogiad, darparu addysg deg a chynhwysol, a sicrhau urddas, parch a mynediad at wasanaethau.

Mae 34 o gamau gweithredu yn y Cynllun. Mae system 'GCAG' yn dangos i ni pa mor dda mae gweithred yn perfformio neu'n cael ei chyflawni. Dangosir cyfansymiau statws BRAG isod:

| Statws GCAG | Diffiniad | 2024-25 |
|---|---|---|
| Glas | Wedi'i gwblhau | 2 |
| Coch | Heb ei gychwyn/mae pryderon na fydd yn cael ei chwblhau | 2 |
| Ambr | Ychydig y tu ôl i'r targed | 6 |
| Gwyrdd | Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl | 24 |

Mae'r crynodeb hwn yn tynnu sylw at y cyflawniadau allweddol, yr heriau a'r blaenoriaethau yn y dyfodol ar draws yr amcanion hyn. Mae adroddiad llawn ar gael yn Atodiad 1.

## Amcan Cydraddoldeb 1: Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol

### Cyflawniadau Allweddol:

- Proses ymgeisio recriwtio ddiwygiedig i ddenu cronfa dalent amrywiol.
- Adolygu polisïau Adnoddau Pobl i adlewyrchu anghenion cymunedol.
- Hyrwyddo cynlluniau graddedigion a chyfleoedd prentisiaethau.
- Lansio Arolwg y Gweithlu 2024 i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

### Heriau:

Annog cynrychiolaeth gyfrannol yn y gweithlu.
Gorffen gweithredu'r Cynllun Graddedigion.

### Blaenoriaethau yn y dyfodol:

Parhau i ddatblygu modiwlau hyfforddi a gweithgareddau ymgysylltu a’r gweithlu.
Gwella strategaethau recriwtio i ddenu ymgeiswyr amrywiol.

## Amcan Cydraddoldeb 2: Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn

### Cyflawniadau Allweddol:

- Monitro a darparu cyngor ar Asesiadau Effaith Integredig.
- Derbyniwyd i'r rhwydwaith Oed-Gyfeillgar.
- Cefnogi'r gwaith o fonitro tensiynau cymunedol.

### Heriau:

Cynnydd cyfyngedig wrth ddatblygu adnoddau addysgu yn seiliedig ar gasgliadau ein hamgueddfeydd oherwydd capasiti.

### Blaenoriaethau yn y dyfodol:

Cynyddu hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig.
Gweithredu ein hymrwymiad i'r Siarter Troseddau Casineb.

## Amcan Cydraddoldeb 3: Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogi

### Cyflawniadau Allweddol:

- Mwy o gynrychiolaeth yng nghyfarfodydd Fforwm Anabledd Ceredigion.
- Cynnal digwyddiadau sy'n dathlu amrywiaeth a threftadaeth.
- Datblygu llwyfannau ymgysylltu ar-lein a mecanweithiau adborth gwell.

### Heriau:

Cyflawni cynrychiolaeth amrywiol mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau.
Gallu cyfyngedig i ddatblygu fforymau rhanddeiliaid.

### Blaenoriaethau yn y dyfodol:

Gwella strategaethau ymgysylltu i gynnwys lleisiau cymunedol amrywiol.
Cryfhau partneriaethau i gefnogi fforymau rhanddeiliaid.

## Amcan Cydraddoldeb 4: Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau

### Cyflawniadau Allweddol:

- Hyrwyddo cyfleoedd datblygu Cymraeg.
- Mwy o cyfleoedd chwarae cynhwysol a gweithgarwch corfforol i blant anabl.
- Cefnogaeth i ddarparwyr gofal plant cofrestredig.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu tai sy'n diwallu anghenion cymunedol.

**Heriau:**

Mae cyllid ar gyfer trafnidiaeth yn ffafrio ardaloedd dwys poblog yng Nghymru, gan gyfyngu ar ein gallu i gynnig teithio cynaliadwy, fforddiadwy.
Mae cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus yn y broses o gael ei drosglwyddo o'r Cyngor Sir i grwpiau cymunedol.

**Blaenoriaethau yn y dyfodol:**

Parhau i wella hygyrchedd dogfennau a gyhoeddir ar ein gwefan.
Datblygu atebion teithio cynaliadwy mewn partneriaeth â rhanddeiliaid.

## Amcan Cydraddoldeb 5: Darparu Addysg Deg a Chynhwysol

**Cyflawniadau Allweddol:**

- Gweithredu polisïau gwrth-fwlio sy'n adlewyrchu canllawiau wedi'u diweddaru.
- Agor canolfannau adnoddau arbenigol newydd ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol.
- Cefnogi pobl hŷn a pobl anabl mewn cynhwysiant digidol.

**Heriau:**

Heriau recriwtio ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion amrywiol.
Aros am ganllawiau traws cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

**Blaenoriaethau yn y dyfodol:**

Gwella darpariaeth addysgol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.
Hyrwyddo amrywiaeth mewn llywodraethu ac arweinyddiaeth ysgolion.

Mae ein Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol yn cyfarfod bob tri mis i fonitro cynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac i drafod materion eraill sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb, sy'n aelod o Gabinet Cyngor Sir Ceredigion.

Mae ein hadroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor i'w graffu ac yna i'r Cabinet i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi ar ein gwefan.

## Atodiad 1 – Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-25

Mae'r adrannau canlynol yn manylu ar y diweddariadau a'r camau a gymerwyd o dan bob amcan.

### Amcan Cydraddoldeb 1: Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol

1. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn cymryd camau i annog cymysgedd mwy cyfartal o ddynion a menywod mewn swyddi gradd is a gradd uwch.

**Diweddariad 2024–25:** Rydym wedi adolygu ein proses ymgeisio recriwtio i ddenu cronfa dalent ehangach a mwy amrywiol. Mae gwelliannau i'n gwefan gyrfaoedd yn parhau i gefnogi'r nod hwn. Mae'r adroddiad blynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei gwblhau a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol cyn bo hir.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

2. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cydraddoldeb yn y gweithlu blynyddol ac yn cymryd camau i annog cynrychiolaeth gymesur yn ein gweithlu, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol ac uwch reolwyr.

**Diweddariad 2024–25:** Mae'r adroddiad cydraddoldeb yn y gweithlu yn cael ei gwblhau a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol cyn bo hir.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

3. Byddwn yn adolygu polisïau Adnoddau Pobl a llenyddiaeth recriwtio i adlewyrchu anghenion a hunaniaethau amrywiol ein cymuned.

**Diweddariad 2024–25:** Adolygwyd y Polisi Recriwtio a Dethol yn ddiweddar mewn ymgynghoriad ag Undebau Llafur cydnabyddedig. Cynhaliwyd asesiad effaith integredig i sicrhau bod y polisi yn diwallu anghenion ein cymunedau amrywiol.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

4. Byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu ystod o hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb.

**Diweddariad 2024–25:** Mae'r modiwl e-ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gorfodol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i gynnig hyfforddiant sy'n cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y sefydliad.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

5. Byddwn yn hyrwyddo ein cynllun graddedigion ac yn datblygu dull cydgysylltiedig o brofiad gwaith a chyfleoedd prentisiaethau.

**Diweddariad 2024–25:** Mae cymeradwyaeth derfynol ar gyfer y Cynllun Graddedigion yn yr arfaeth, gyda recriwtio wedi'i gynllunio ar gyfer yr haf. Mae dogfennau canllaw ar gyfer ymagwedd gydgysylltiedig at brofiad gwaith yng nghamau olaf y datblygiad. Mae'r Cynllun Prentisiaethau yn parhau i fod wedi'i sefydlu'n dda, gyda meysydd gwasanaeth yn cael eu cefnogi gan y tîm Dysgu a Datblygu wrth recriwtio prentisiaid.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

6. Byddwn yn adeiladu ar ein gweithgareddau ymgysylltu â gweithwyr ac yn sicrhau bod pob llais gweithlu yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.

**Diweddariad 2024–25:** Yn ogystal ag ymgysylltu parhaus ag Undebau Llafur, fe wnaethom lansio Arolwg Pobl newydd yn 2024. Archwiliodd feysydd allweddol gan gynnwys:

- Boddhad a chefnogaeth swydd
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Cyfleoedd datblygu
- Iechyd, diogelwch a lles
- Perthnasoedd yn y gweithle (cynhwysiant, gwrthdaro, ac ati)

Mae'r canfyddiadau wedi'u rhannu â staff, uwch reolwyr, ac arweinwyr, a byddant yn llywio penderfyniadau yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

## Amcan Cydraddoldeb 2: Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn

1. Byddwn yn monitro'r defnydd o Asesiadau Effaith Integredig ac yn darparu cyngor arno.

**Diweddariad 2024–25:** Cyflwynwyd cyfanswm o 35 o Asesiad Effaith Integredig a 6 Asesiad Effaith Cymunedol ochr yn ochr ag adroddiadau'r Cabinet i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. Cyflwynwyd dau adroddiad Cabinet heb AEI cysylltiedig. Er bod yr Asesiadau Effaith Cymunedol yn dilyn Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, ystyriwyd eu bod yn annigonol i ddechrau. Cafodd y rhain eu hadolygu a'u hailgyhoeddi ar ein gwefan. Mae cyngor a chymorth un-i-un ar gael ar AEI, a chyflwynwyd sesiwn

wybodaeth i'r holl wasanaethau ym mis Chwefror 2025. Mae hyfforddiant pellach wedi'i gynllunio ar gyfer 2025–26.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

2. Byddwn yn gweithredu ein hymrwymiad i Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr ac yn defnyddio marc ymddiriedaeth y Siarter Troseddau Casineb lle bo hynny'n briodol.

**Diweddariad 2024–25:** Fe wnaethom gyflawni marc ymddiriedaeth y Siarter Troseddau Casineb ym mis Chwefror 2024. Rhannwyd neges gyda'r holl staff i annog defnyddio logo'r marc ymddiriedaeth mewn troedynnau e-bost a deunyddiau hyrwyddo. Cyflwynodd Cymorth i Ddioddefwyr dystysgrif marc ymddiriedaeth i Aelodau Etholedig mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor ym mis Medi 2024. Mae ein camau nesaf yn cynnwys monitro effaith ein hymrwymiad a sicrhau defnydd priodol y logo marc ymddiriedaeth.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

3. Byddwn yn sicrhau bod casgliadau perthnasol, yn enwedig y rhai a ddefnyddir fel rhan o gyflwyno'r cwricwlwm, yn dathlu amrywiaeth ac yn annog ymgysylltiad gwrth-hiliol.

**Diweddariad 2024–25:** Mae'r prosiect "I'r Chwilfrydig llawn Diddordeb", a ariennir drwy Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru yn 2024, wedi ein galluogi i archwilio rhannau o'n casgliad mewn perthynas â gwladychiaeth, hiliaeth a chaethwasiaeth. Fodd bynnag, nid ydym wedi cael y gallu i ddatblygu'r mewnwelediadau hyn i adnoddau addysgu eto.

| | |
|---|---|
| **Ambr** | **Ychydig y tu ôl i'r targed** |

3. Byddwn yn cefnogi'r Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i fonitro tensiynau cymunedol.

**Diweddariad 2024–25:** Mae'r Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn cynnal cyfarfodydd aml-asiantaeth wythnosol i fonitro tensiynau cymunedol ac yn rhannu diweddariadau perthnasol gydag adrannau'r Cyngor. Mae'r diweddariadau hyn yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol y Cyngor a Grŵp Ailsefydlu Ffoaduriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Yn dilyn y digwyddiad trywanu yn Southport yn ystod haf 2024, darparodd y tîm ddiweddariadau ac arweiniad rheolaidd mewn ymateb i brotestiadau ac aflonyddwch dde eithafol a gwrth-fewnfudo.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

4. Byddwn yn cefnogi'r Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gyflwyno ymgyrch flynyddol yn y cyfryngau i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dathlu amrywiaeth, a choffáu digwyddiadau hanesyddol perthnasol.

**Diweddariad 2024–25:** Fe wnaethom gefnogi a hyrwyddo ystod o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth:

**Anableddau ac Iechyd**

- Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth
- Diwrnod Ymwybyddiaeth Syndrom Niwroddatblygiadol Okur-Chung (OCNDS)
- Diwrnod Parkinsons
- Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
- Wythnos Atal Hunanladdiad
- Diwrnod Iechyd Meddwl
- Diwrnod Awtistiaeth y Byd-eang
- Diwrnod Menopos y Byd-eang
- Diwrnod Ymwybyddiaeth Anhwylder Iaith Ddatblygiadol
- Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau

**LGBTQ+**

- Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia, Deuffobia a Thrawsffobia
- Mis Balchder LHDTC+
- Diwrnod Cofio Trawsryweddol
- Mis Hanes LHDTC+
- Wythnos Mabwysiadu a Maethu LHDTC+

**Arall**

- Wythnos Ffoaduriaid
- Mis Hanes Pobl Ddu
- Diwrnod Pobl Hŷn
- Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

5. Byddwn yn ymuno â'r rhwydwaith Oed-Gyfeillgar ac yn gweithredu cynllun gweithredu sy'n adlewyrchu anghenion ein poblogaeth sy'n heneiddio.

**Diweddariad 2024–25:** Fe wnaethom gwblhau hunanasesiad ac rydym wedi cael ein derbyn i'r rhwydwaith Oed-Gyfeillgar. Mae’r cynllun gweithredu wedi dechrau a bydd yn parhau i esblygu dros amser.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

## Amcan Cydraddoldeb 3: Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogiad

1. Byddwn yn cefnogi rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau, yn enwedig gan bobl ifanc, menywod, pobl anabl, pobl LHTDC+, a phobl o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae etholiad nesaf y Senedd wedi'i drefnu ar gyfer 2026. Rydym wedi datblygu amserlen o sesiynau codi ymwybyddiaeth, a fydd yn cael eu cyflwyno i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn ystod 2025-26. Gyda'r etholiad lleol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 2027, byddwn yn cynhyrchu taflen hyrwyddo yn 2026–27 i annog ystod amrywiol o ymgeiswyr.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

2. Byddwn yn datblygu aelodaeth Fforwm Anabledd Ceredigion i ddeall arfer da a phrofiadau byw pobl anabl yn well.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae presenoldeb y fforwm wedi cynyddu'n raddol, gyda chyfranogiad cyfartalog yn codi o chwech i wyth unigolyn anabl. Mae Siarter wedi'i datblygu, sy'n amlinellu proses i'r Fforwm ymateb i ymgynghoriadau gyda llais unedig. Mae Aelodau'r Cabinet a swyddogion perthnasol y Cyngor bellach yn mynychu cyfarfodydd i glywed yn uniongyrchol gan aelodau'r Fforwm. Mae'r Fforwm hefyd wedi'i ddynodi'n ymgynghorai Cam 1 ar gyfer Gorchmynion Rheoleiddio Traffig a ddatblygwyd gan y Cyngor.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

3. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu fforwm rhanddeiliaid i ddeall arfer da a phrofiadau byw pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol yn well.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae'r cynnydd wedi bod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, ym mis Hydref 2024, fe wnaethom bartneru â Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Phrifysgol Aberystwyth i gynnal digwyddiad dathlu diwylliannol. Denodd y digwyddiad tua 350 o fynychwyr a derbyniodd adborth cadarnhaol, gyda llawer yn mynegi diddordeb mewn digwyddiadau yn y dyfodol. Yn anffodus, mae cyfyngiadau capasiti a chyllid presennol yn cyfyngu ar ein gallu i adeiladu ar y momentwm hwn.

| | |
|---|---|
| **Coch** | **Heb ei gychwyn/mae pryderon na fydd yn cael ei chwblhau** |

4. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu fforwm rhanddeiliaid i ddeall arfer da a phrofiadau byw pobl LHTDC+ yn well.

   **Diweddariad 2024–25:** Fe wnaethom ymgysylltu â sawl grŵp ac unigolyn LHDTC+ trwy gydol y flwyddyn. Datblygwyd gwefan ddrafft i ganoli gwybodaeth berthnasol. Ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom gynnal digwyddiad Mis Hanes LHDTC+, a ddarparodd fewnwelediadau gwerthfawr a chysylltiadau newydd. Mae gan y tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant gyllid i gefnogi gweithgareddau tebyg, ond mae'r capasiti presennol yn cyfyngu ar lefel yr ymgysylltiad sydd ei angen ar gyfer llwyddiant ehangach.

| | |
|---|---|
| **Ambr** | **Ychydig y tu ôl i'r targed** |

5. Byddwn yn datblygu ac yn gwella ein defnydd o lwyfannau ymgysylltu ar-lein a dulliau ymgysylltu nad ydynt yn ddigidol.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae nifer y bobl sydd wedi cofrestru i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriadau Cyngor Ceredigion drwy e-bost o'n platfform Fy Nghyfrif yn cynyddu. Gellir casglu copïau papur o'r ymgyrchoedd ymgynghori cyfredol o'n Llyfrgelloedd a'n Canolfannau Hamdden/Lles a chrëir posteri i hyrwyddo ein hymgyrchoedd. Cynhelir grwpiau ffocws wyneb yn wyneb, cyfarfodydd rhanddeiliaid a sesiynau galw heibio pan fo'n briodol. Rydym wedi sefydlu ffurflen ymateb ddigidol i gasglu adborth gan bobl sy'n cysylltu â'n canolfan gyswllt Clic drwy e-bost; Ein sgôr boddhad cyfartalog yw 7.5 allan o 10.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

6. Byddwn yn gwella sut rydym yn darparu adborth i'r rhai sy'n cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae ein Pecyn Cymorth Ymgysylltu yn cynghori swyddogion i hysbysu rhanddeiliaid am ganlyniadau'r ymgynghoriad trwy e-bost, er nad yw hyn yn cael ei weithredu'n gyson oherwydd capasiti. Fodd bynnag, mae ein gwefan Ymgysylltu ac Ymgynghoriadau corfforaethol wedi gwella'n sylweddol. Mae ymgynghoriadau caeedig bellach wedi'u marcio'n glir fel naill ai 'Ar gau – aros am benderfyniad' neu 'Ar gau – penderfyniad wedi'i wneud,' gyda phenderfyniadau wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad gwreiddiol ar gyfer tryloywder llawn. Bydd pwysigrwydd adborth yn cael ei bwysleisio ymhellach yn yr hyfforddiant sydd ar ddod ar yr Teclyn Ymgysylltu ac Ymgynghori.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

## Cydraddoldeb Amcan 4: Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad at Wasanaethau

1. Byddwn yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd datblygu Cymraeg yn weithredol i ddiwallu anghenion darparu gwasanaethau a chefnogi ein diwylliant dwyieithog.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2024–2029, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024, yn amlinellu nodau uchelgeisiol i helpu'r iaith i ffynnu ledled y sir. Mae Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion wedi diwygio ei gylch gwaith i alinio â'r strategaeth hon. Mae Gweithgor Cymraeg wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â materion iaith yn y gweithle, gan gynnwys Fframwaith Iaith ALTE, recriwtio, a gwersi Cymraeg Gwaith. Mae'r e-gylchlythyr #Gwena yn parhau i gael ei gyhoeddi bob mis, gan hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith staff.

| Gwyrdd | Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl |
|---|---|

2. Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd chwarae a gweithgarwch corfforol cynhwysol ac arbenigol i blant a phobl ifanc anabl.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae ein gwyliau Anabledd Ysgol Gynradd a gwyliau Insport wedi darparu profiadau chwaraeon hygyrch, pleserus i blant ag anableddau dysgu. Mae ein rhaglen Chwarae i Bawb bellach wedi'i hymgorffori ar draws pum uned ADY, gan gynnig sesiynau wythnosol i blant oedran uwchradd sy'n cefnogi datblygiad corfforol a chymdeithasol. Mae Llysgenhadon Ifanc yn helpu i arwain y gweithgareddau hyn. Rydym wedi ehangu'r ddarpariaeth gyda chlybiau wythnosol newydd sy'n benodol i bobl anabledd yng ngogledd, canolbarth a de Ceredigion. Mae sesiwn newydd PAN Pêl-droed Anabledd yn Aberteifi yn cynyddu mynediad at chwaraeon cynhwysol, cymunedol ymhellach. Trwy gydweithio â gweithwyr iechyd proffesiynol, rydym wedi lansio'r Rhaglen Gweithgareddau Anabledd Iechyd. Mae hwn yn llwybr atgyfeirio ffurfiol sy'n cysylltu pobl ifanc ag anableddau â chyfleoedd gweithgarwch corfforol addas yn eu cymunedau.

| Gwyrdd | Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl |
|---|---|

3. Byddwn yn parhau i gefnogi darparwyr gofal plant cofrestredig i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc anabl neu rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae cyllid ar gael drwy Gynllun Cyfeirio i blant sydd angen cymorth ychwanegol mewn lleoliadau cyn-ysgol, a thrwy gynllun Ymuno ar gyfer y rhai sydd mewn darpariaeth gofrestredig y tu allan i'r ysgol. Cyflwynwyd cwrs Anghenion

Dysgu Ychwanegol 7 modiwl yn 2024–25, gydag 8 ymarferydd yn cymryd rhan. Cwblhawyd cwrs Elklan gyda'r nos, wedi'i anelu at warchodwyr plant a chefnogi datblygiad lleferydd ac iaith, gan 10 mynychwyr. Yn ogystal, derbyniodd 12 o blant gymorth trwy'r Grant Cymorth Ychwanegol o dan y Cynnig Gofal Plant.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

4. Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella troedffyrdd a cherbytffyrdd (e.e., palmantau wedi'u gollwng a pharcio i'r anabl).

**Diweddariad 2024–25:** Mae'r holl waith cynnal a chadw a gwella yn dilyn canllawiau Symudedd Cynhwysol yr Adran Drafnidiaeth. Fodd bynnag, mae cyllid ac adnoddau cyfyngedig yn golygu na ellir gweithredu gwelliannau bob amser mor gyflym ag y dymunir.

| | |
|---|---|
| **Ambr** | **Ychydig y tu ôl i'r targed** |

5. Byddwn yn gweithio tuag at gyflawni sgôr hygyrchedd AAA ar gyfer ein gwefan.

**Diweddariad 2024–25:** Mae cyflawni'r sgôr hon yn ymgymeriad sylweddol sy'n gofyn am ymrwymiad traws-adrannol. Cytunwyd ar gynllun gweithredu, ac mae'r prosiect bellach yn ffrwd waith o fewn y Cynllun Digidol 2024–2026. Cyflwynwyd gweithdy ymwybyddiaeth i'r holl reolwyr corfforaethol, ac mae'r Uwch Grŵp Rheoli wedi ymrwymo i fonitro cynnydd yn rheolaidd.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

6. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r dulliau rydyn ni'n eu defnyddio i gyfathrebu â'r cyhoedd.

**Diweddariad 2024–25:** Ein gwefan yw'r brif ffordd yr ydym yn cyfathrebu â'r cyhoedd; mae hyn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae gweithgareddau'r Cyngor yn cael eu cyfathrebu trwy gyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg. Mae nifer y bobl sy'n ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu i:

- **Facebook (Cymraeg):** 2,886
- **Facebook (Saesneg):** 18,596
- **Instagram –** Caru Ceredigion: 1,988
- **X (Cymraeg):** 2,559
- **X (Saesneg:** 8,383

Rydym wedi sefydlu cylchlythyr Cyngor sy'n cael ei anfon drwy e-bost at dros 1,000 o bobl sydd wedi cofrestru i dderbyn hwn trwy ein platfform Fy Nghyfrif .

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

7. Byddwn yn darparu tai sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.

   **Diweddariad 2024–25:** Rydym yn parhau i adeiladu tai cymdeithasol newydd sy'n cyd-fynd â'r galw presennol, gan wneud y mwyaf o gyllid grant. Rydym hefyd wedi prynu stoc tai i ddiwallu anghenion teuluol penodol a fyddai fel arall yn anodd mynd i'r afael â nhw trwy eiddo presennol.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

8. Byddwn yn adolygu ein Strategaeth Toiledau fel ei bod yn adlewyrchu anghenion ein poblogaeth sy'n newid lle bo'n rhesymol ac ymarferol bosibl.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae'r Strategaeth Toiledau Cyhoeddus wedi'i diweddaru ac mae bellach yn cynnwys Cynllun Gweithredu Strategaeth Toiledau Cyhoeddus 2025–2026, sy'n amlinellu camau gweithredu allweddol i ddiwallu anghenion cymunedol sy'n esblygu. Nid yw'r strategaeth wedi'i diweddaru wedi'i chyhoeddi eto. Fel rhan o ymdrech ailstrwythuro ehangach, mae'r rheolaeth a'r cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus yn y broses o gael eu trosglwyddo i ffwrdd o'r Cyngor Sir.

| | |
|---|---|
| **Glas** | **Wedi'i gwblhau** |

9. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu atebion teithio cynaliadwy a fforddiadwy.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae trafodaethau yn parhau gyda Thrafnidiaeth Cymru mewn perthynas â datblygu 'pont i fasnachfraint' a nodi canolfan a rhwydwaith yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch nifer y teithwyr nad ydynt yn adfer i lefelau cyn-Covid, argaeledd gyrwyr, parodrwydd gweithredwyr i ddarparu lefelau gwasanaeth a ddymunir a lefelau cyllido yn y dyfodol yn cymhlethu'r trafodaethau. Bu gwelliannau i lwybrau T1 a T2 Traws Cymru a disgwylir gwelliannau sydd ar ddod i'r gwasanaeth T5 a fydd yn cynyddu cyfleoedd teithio ar y llwybrau strategol hyn.

   Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

   Llwyddodd Ceredigion i gyflawni rhaglen o welliannau seilwaith bysiau ar hyd coridor Traws Cymru yn 2024/25 ac mae wedi sicrhau cyllid grant pellach i gyflawni mwy o

welliannau i'r seilwaith bysiau, gan gynnwys gwybodaeth amser real a chyllid ar gyfer asesiadau WelTag sy'n gysylltiedig â Chyfnewidfa Fysiau Aberteifi yn sgwâr Finch.

| | |
|---|---|
| **Ambr** | **Ychydig y tu ôl i'r targed** |

10. Byddwn yn sicrhau bod egwyddorion Safonau'r Gymraeg yn sail i'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau, gan alluogi defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad at wasanaethau'n naturiol yn Gymraeg, os ydynt yn dewis.

**Diweddariad 2024–25:** Mae ein Swyddog Polisi'r Gymraeg yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwasanaethau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae ymgyrchoedd rheolaidd, cyfathrebu mewnol, a chyflwyniadau yn codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo cydymffurfiaeth gydwybodol ar draws y gweithlu. Eleni, fe wnaethom wella sut rydym yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg pan rydym yn ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Mae gweithdy corfforaethol a rhannu gwybodaeth rhyng-adrannol wedi helpu i ymgorffori'r broses hon yn ehangach. Rydym hefyd yn cynnal ymgysylltiad rheolaidd â Chomisiynydd y Gymraeg, gan fynychu gweithdai a chymryd rhan mewn Rhaglenni Cydymffurfio i sicrhau ein bod yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddio.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

## Amcan Cydraddoldeb 5: Darparu Addysg Deg a Chynhwysol

1. Byddwn yn mabwysiadu ac yn gweithredu canllawiau traws cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion.

**Diweddariad 2024–25:** Nid yw'r weithred hon wedi dechrau eto, gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau'r canllawiau traws cenedlaethol.

| | |
|---|---|
| **Coch** | **Heb ei gychwyn/mae pryderon na fydd yn cael ei chwblhau** |

2. Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod cyrff llywodraethu ysgolion yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth y disgyblion.

**Diweddariad 2024–25:** Mae recriwtio unigolion i ymuno â chyrff llywodraethu ysgolion yn parhau i fod yn her, ac mae ychwanegu meini prawf amrywiaeth yn cynyddu'r anhawster hwn. Fodd bynnag, mae llywodraethwyr wedi cael eu gwahodd i fynychu dwy gynhadledd DARPL (Diversity and Anti-Racist Professional Learning) ac mae ganddynt fynediad at adnoddau dysgu personol hunangyfeiriedig.

| | |
|---|---|
| **Ambr** | **Ychydig y tu ôl i'r targed** |

3. Byddwn yn sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion yn adlewyrchu canllawiau wedi'u diweddaru gan Lywodraeth Cymru, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb'.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae ein polisi presennol yn adlewyrchu'r canllawiau diweddaraf. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ganllawiau newydd ar hyn o bryd. Rydym yn ymateb i'r ymgynghoriad a byddwn yn sicrhau bod ein canllawiau a'n polisïau yn unol â chanllawiau gwrth-fwlio diwygiedig Llywodraeth Cymru pan fydd ar gael.

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |

4. Byddwn yn gweithredu ein Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CYSGA) 2022–32.

   **Diweddariad 2024–25:** Pwyntiau gweithredu penodol sy'n llywio blaenoriaethu amcanion CYSGA. Mae'r adroddiad blynyddol yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'i rannu gyda Phwyllgor Iaith yr Awdurdod Lleol a'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog.

| | |
|---|---|
| **Glas** | **Gweithred wedi'i gwblhau** |

5. Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth addysgol a'r canlyniadau i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.
   **Gweithredu wedi'i ddiweddaru:**
   Oherwydd cyfyngiadau data, mae'r weithred hon wedi'i diwygio i: Byddwn yn adolygu ac yn gwella'r ddarpariaeth addysgol a'r canlyniadau i blant ag ADY.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae dwy Ganolfan Adnoddau Arbenigol newydd wedi'u hagor; un ar gyfer disgyblion oedran uwchradd yn ne y sir ac un ar gyfer disgyblion oedran cynradd yn y ganolbarth. Mae'r canolfannau hyn yn darparu cymorth lleol i ddisgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn gweithio gydag ysgolion prif ffrwd i ddatblygu darpariaethau wedi'u teilwra a gwella capasiti staff i ddarparu addysgu cynhwysol o ansawdd uchel.

| | |
|---|---|
| **Ambr** | **Ychydig y tu ôl i'r targed** |

6. Byddwn yn parhau i gefnogi pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol a chydnabod manteision bod ar-lein.

   **Diweddariad 2024–25:** Mae dosbarthiadau sgiliau digidol sylfaenol wythnosol am ddim ar gael yn Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan, Aberteifi, Bronant, a Llandysul. Cynhelir gweithdai ychwanegol ar ddiogelwch ar-lein hefyd mewn lleoliadau cymunedol.

| **Gwyrdd** | **Yn symud ymlaen rhagddo yn ôl y disgwyl** |
|---|---|